| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 6 Gorffennaf 2022 |
| **TEITL** | Enwebu Cynrychiolydd i'r Bwrdd Hinsawdd a Natur |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Amgylchedd<br>Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Hinsawdd a Natur |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **PWRPAS** | Mae aelodaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi newid yn dilyn etholiadau'r Cyngor fis Mai 2022, felly mae angen i'r pwyllgor benderfynu o'r newydd pa un o blith ei aelodau fydd yn cynrychioli'r pwyllgor ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero-net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

1.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

1.3 Cafodd y Cynllun ei ddatblygu o dan arweiniad strategol y Bwrdd Hinsawdd a Natur (Bwrdd Newid Hinsawdd gynt), ac mae'r Bwrdd hwnnw yn parhau i fod â'r cyfrifoldeb o gynnig arweiniad strategol yn y maes hinsawdd a natur yn nhymor y Cyngor hwn. Mae gan y Bwrdd hefyd rôl yn y broses herio perfformiad ar ddatblygiad y Cynllun.

1.4 Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys: Arweinydd y Cyngor (sy'n arwain ar y gwaith yn y maes hinsawdd a natur yn ogystal), Aelodau Cabinet yn y prif feysydd perthnasol, Prif Weithredwr, Penaethiaid Adran yn y prif feysydd perthnasol, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

1.5 Rôl y cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur yw:

- Cyfathrebu barn a gwybodaeth mewn proses ddwy ffordd rhwng y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.
- Cyfrannu at gynnig arweiniad strategol yn y maes hinsawdd a natur drwy'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.
- Tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau at faterion yn y maes hinsawdd a natur a all fod angen eu craffu ymhellach.

## 2. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

2.1 Mae aelodaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi newid ers cychwyn tymor newydd y Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2022. Mae angen felly i'r Pwyllgor gytuno o'r newydd ar gynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

2.2 Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar berson i'w cynrychioli ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur bydd y person hwnnw yn cychwyn yn syth yn y rôl.